Trussell
Ending hunger together

# Cost mynd heb fwyd a chaledi: Prif ganfyddiadau ar gyfer Cymru



# 1. Cyflwyniad

## Prosiect ymchwil cadarn, dulliau cymysg

1.

Dadansoddiad economaidd i ddeall costau wynebu mynd heb fwyd a chaledi

2.

Ymchwil ansoddol a chyfranogol gyda phobl sy'n wynebu mynd heb fwyd a chaledi er mwyn deall y cysylltiadau achosol rhwng profiadau bywyd a chostau

3.

Modelu effaith polisïau ar raddfa mynd heb fwyd a chaledi a'r costau a'r buddiannau ehangach sy'n gysylltiedig â rhoi'r polisïau ar waith

# Y gwahanol fathau o gostau a gwmpesir

## Costau i'r economi

Effaith mynd heb fwyd a chaledi ar gyflogaeth a chynhyrchiant

## Costau ariannol

Effaith mynd heb fwyd a chaledi ar wariant nawdd cymdeithasol a refeniw treth

## Costau gwasanaethau cyhoeddus

Effaith mynd heb fwyd a chaledi ar y tebygolrwydd o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus mewn meysydd fel iechyd, tai ac addysg

# Y mesur

Mae pobl yn wynebu mynd heb fwyd a chaledi os ydynt 25% yn is na llinell dlodi'r Comisiwn Metrigau Cymdeithasol.

Mae'r mesur hwn yn nodi pobl y mae'n debygol y bydd angen iddynt droi at fanc bwyd nawr, a phobl sy'n wynebu risg uchel y bydd angen cymorth banc bwyd arnynt yn y dyfodol.

# 2. Prif ganfyddiadau

**£3.6**

biliwn

Cost flynyddol mynd heb fwyd a chaledi ledled Cymru ar hyn o bryd

**420,000**


Nifer y bobl sy'n wynebu mynd heb fwyd a chaledi yng Nghymru

Mae hyn yn cynnwys dros 300,000 o oedolion a 110,000 o blant

# Cost mynd heb fwyd a chaledi - 2022/23

## £560 miliwn
**Costau gwasanaethau cyhoeddus**

- £290mn - Iechyd
- £120mn - Addysg a gofal cymdeithasol plant
- £140mn - Tai




## £1.9 biliwn
**Costau i'r economi**

- £1.3bn - Llai o gyflogaeth
- £560mn - Llai o gynhyrchiant

## £1.2 biliwn
**Costau ariannol**

- £910mn - Llai o refeniw treth
- £260mn - Ar wariant nawdd cymdeithasol ychwanegol

# Mae'r costau hyn yn debygol o fod yn danamcangyfrif

**Nid ydym wedi gallu nodi a chostio pob maes sy'n debygol o fod wedi ei effeithio gan wynebu mynd heb fwyd a chaledi.**

Gan fod terfyn ar gapasiti, blaenoriaethwyd dadansoddi effaith â'r sail dystiolaeth gryfaf, y data a oedd ar gael, a'r meysydd y tybir eu bod yn cael yr effaith fwyaf.

O ganlyniad, mae'r ffigurau hyn yn debygol o fod yn danamcangyfrif o wir gost mynd heb fwyd a chaledi.

**Rydym wedi bod yn ofalus wrth fodelu.**

Mae effeithiau wynebu mynd heb fwyd a chaledi yn aml yn rhyngweithio ac yn atgyfnerthu ei gilydd.

Rydym wedi bod yn ofalus wrth nodi'r rhain a chyfrif am y meysydd hyn a allai gael eu cyfrif ddwywaith.

Er enghraifft, rydym yn tybio bod effeithiau iechyd ychwanegol yn sgil amodau llety gwael wedi eu cynnwys yn ein costau  cyffredinol o effeithiau iechyd.

“Byddwn i wrth fy modd pe bawn i’n gyfforddus fel fy mod i’n gallu prynu pâr newydd o esgidiau i’r plant pe bai twll ynddyn nhw, fel sy’n digwydd, a pheidio gorfod aros rhai wythnosau a gobeithio na fydd e’n bwrw a bod eu traed nhw’n gwlychu”

Menyw, 50au, Cymru, gyda phlant



# Costau llesiant goddrychol oedolion

## £3.7 biliwn

**Nid yw'r ffigur hwn wedi'i gynnwys yn y prif gostau,** er mwyn canolbwyntio ar effaith fwyaf uniongyrchol mynd heb fwyd a chaledi. Fodd bynnag, mae'n rhan bwysig o'r darlun. Yn wir, mae Prif Weinidog presennol y DU wedi nodi'n flaenorol ei fod yn allweddol "trin llesiant a thwf yn gyfartal".

Mae pobl sy'n mynd heb fwyd ac sy'n syrthio i galedi yn adrodd lefelau is o lesiant na phobl nad ydynt yn mynd heb fwyd ac nad ydynt yn syrthio i galedi. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod eu llesiant yn cael ei niweidio ar gyfer y dyfodol hefyd.

Ar gyfartaledd, mae pobl sy'n mynd heb fwyd ac sy'n syrthio i galedi yn nodi sgôr boddhad bywyd 4% yn is dros gyfnod o 10 mlynedd, o gymharu â phobl nad ydynt yn yr amgylchiadau hynny.


Rydym yn defnyddio'r dull a argymhellir gan Lyfr Gwyrdd Trysorlys EF i droi'r costau llesiant goddrychol hyn yn gost ariannol gyfatebol.

# 3. Sut mae mynd heb fwyd a chaledi yn effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Methu fforddio gwahodd pobl draw i'r tŷ | Embaras am brofi caledi | Pryderu am arian drwy'r amser | = | **Mwy o risg o ynysu cymdeithasol** |
| Pryderon ariannol yn rhoi straen ar gydberthnasau | Methu fforddio ymweld â ffrindiau a theulu | Oriau hir yn y gwaith yn golygu nad oes amser ar gyfer cydberthnasau | = | **Mwy tebygol y bydd cydberthynas yn chwalu** |
| | Mwy o ddicter a thensiwn a achosir gan galedi ariannol | Diffyg gwasanaethau a chyfleustodau angenrheidiol yn lleol | = | **Llai o gydlyniant cymdeithasol** |

These pathways are by no means exhaustive, but illustrate some of the most significant costs associated with facing hunger and hardship.

# Costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd



“Mae cymaint o ddiwrnodau lle rwyf wedi gorfod mynd heb fwyta oherwydd rhywbeth dwl fel troi fy nhrydan ymlaen neu rywbeth”



Dyn, 30au, Cymru

# 4. Sut mae mynd heb fwyd a chaledi yn effeithio ar addysg, gofal a sgiliau

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Anodd talu costau sy'n ymwneud â'r ysgol | Amgylchedd y cartref ddim yn addas ar gyfer dysgu | Teimlo'n wahanol i gyfoedion ac wedi ynysu oddi wrthynt | = | **Mwy heriol i blant fanteisio i'r eithaf ar fynd i'r ysgol** |
| | Plant yn cyrraedd yr ysgol yn llwglyd | Helpu teuluoedd i ddod o hyd i gyngor | = | **Pwysau ychwanegol ar ysgolion** |
| Methu talu costau cymwysterau ychwanegol | Jyglo oriau hir yn y gwaith a gofal plant | Dim llawer o hyder y bydd sgiliau newydd yn 'talu ar eu canfed' | = | **Anodd datblygu sgiliau newydd ar ôl plentyndod** |

These pathways are by no means exhaustive, but illustrate some of the most significant costs associated with facing hunger and hardship.

# Costau sy’n gysylltiedig ag addysg, gofal a sgiliau

## £20 miliwn
Addysg

- £5mn - Prydau Ysgol am Ddim
- £12mn - Grant Datblygu Disgyblion
- £7mn - Gostyngiad mewn presenoldeb yn yr ysgol




## £100 miliwn
Costau gofal cymdeithasol plant

- £90mn - Gofal preswyl
- £11mn - Gofal maeth
- £7mn - Plant sydd angen cymorth gwasanaethau cymdeithasol

Gallai fy mhlentyn hynaf gael ychydig o help ychwanegol, fwy na thebyg, fel tiwtor neu rywbeth. Mae hi dipyn ar ei hôl hi...Dydy hi ddim wedi cael ei hatgyfeirio a dydy hi ddim wedi cael diagnosis, ond rwy'n credu bod yna rhywbeth niwroddatblygiadol fwy na thebyg... Rwy'n credu, pe bawn i wedi bod yn well fy myd yn ariannol, gallwn i fod wedi gwneud hynny.

Menyw, 30au, Cymru, gyda phlant



# 5. Sut mae mynd heb fwyd a chaledi yn effeithio ar gyflogaeth, cynhyrchiant a chyllid

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhwystrau ariannol i ddod o hyd i waith (trafnidiaeth, dillad, gofal plant) | Problemau iechyd – yn cael eu gwaethygu'n aml gan sefyllfa ariannol | Straen ac amser i feddwl – yn ceisio goroesi | = | **Anoddach dod o hyd i waith a'i gadw** |
| Profiad o galedi yn ystod plentyndod – cyrhaeddiad addysgol is | Diffyg adnoddau yn ei gwneud hi'n anodd buddsoddi mewn sgilau | Hyder a sefyllfa ariannol yn lleihau pŵer bargeinio | = | **Mwy tebygol o fod mewn gwaith o ansawdd isel neu waith sy'n ansicr** |
| Diffyg adnoddau yn golygu cwtogi ar hanfodion | Heb unrhyw gynilion, mae'n teimlo'n amhosibl i gynllunio | Mwy tebygol o ddefnyddio credyd risg uchel gan arwain at gylch dyled | = | **Cael eu gwthio i ddyled a chyllidebu eithafol** |

These pathways are by no means exhaustive, but illustrate some of the most significant costs associated with facing hunger and hardship.

# Costau sy'n gysylltiedig â gwaith a chyllid

## £1.2 biliwn
Costau ariannol

£910mn - Llai o refeniw treth

£260mn - Yn cael ei wario ar nawdd cymdeithasol ychwanegol




## £1.9 biliwn
Costau i'r economi

£1.3bn - Llai o gyflogaeth

£560mn - Llai o gynhyrchiant

Alla i ddim symud ymlaen yn yr hyn rwy'n ei wneud ac mae'r swydd yn mynd yn anoddach bob blwyddyn rwyf yna ac ry'n ni'n cael mwy o gyfrifoldeb ond dyw'r cyflog ddim yn codi.

Byddwn i wrth fy modd yn mynd nôl i'r coleg a dilyn llwybr gwahanol ond dydw i ddim yn siŵr a fyddwn i'n gallu gwneud hynny'n ariannol. Dydw i ddim yn siŵr a fydden ni'n ei chael hi'n anodd yn ariannol pe bawn i'n mynd i'r coleg.



Menyw, 30au, Cymru, gyda phlant

# 6. Sut mae mynd heb fwyd a chaledi yn effeithio ar dai a digartrefedd

Mwy o risg o fyw mewn tŷ anfforddiadwy ac ansicr

Diffyg adnoddau ariannol i symud i dŷ mwy addas

Diffyg adnoddau yn golygu methu herio penderfyniadau landlordiaid

=

**Bygythiad o droi allan a digartrefedd**

Mwy o risg o fyw mewn tŷ o ansawdd gwael

Methu fforddio gwresogi cartref


=

**Mwy o broblemau iechyd meddwl a chorfforol**

**Anodd cymryd rhan mewn cymdeithas, gan gynnwys dod o hyd i waith a'i gadw**

These pathways are by no means exhaustive, but illustrate some of the most significant costs associated with facing hunger and hardship.

# Cost mynd heb fwyd a chaledi – tai



“Byw mewn carafan yw’r unig opsiwn posibl a hyd yn oed wedyn rwy’n poeni am y gaeaf gan fod angen i fi brynu gwresogydd diesel. Rwy’n gobeithio y galla’ i weithio mwy o oriau yn fy ail swydd i helpu i dalu amdano...ond dydy’r gwaith ddim yn sefydlog a gallen i golli fy swydd unrhyw bryd.”

Dyn, 40au, Cymru



# 7. Sut mae mynd heb fwyd a chaledi yn effeithio ar gymunedau a chydberthnasau

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Methu fforddio gwahodd pobl draw i'r tŷ | Embaras am brofi caledi | Pryderu am arian drwy'r amser | = | **Mwy o risg o ynysu cymdeithasol** |
| Pryderon ariannol yn rhoi straen ar gydberthnasau | Methu fforddio ymweld â ffrindiau a theulu | Oriau hir yn y gwaith yn golygu nad oes amser ar gyfer cydberthnasau | = | **Mwy tebygol y bydd cydberthynas yn chwalu** |
| | Mwy o ddicter a thensiwn a achosir gan galedi ariannol | Diffyg gwasanaethau a chyfleustodau angenrheidiol yn lleol | = | **Llai o gydlyniant cymdeithasol** |

These pathways are by no means exhaustive, but illustrate some of the most significant costs associated with facing hunger and hardship.

# Pam nad ydym wedi costio'r effaith ar gymunedau a chydberthnasau ar wahân

Yn wahanol i'r meysydd blaenorol, nid ydym wedi costio effaith mynd heb fwyd a chaledi ar gymunedau a chydberthnasau ar wahân. Mae llawer o gostau cysylltiedig wedi'u cynnwys mewn meysydd eraill a archwiliwyd, fel iechyd, addysg a gwaith.

Y brif gost ychwanegol i'w hystyried fyddai unrhyw effaith y mae mynd heb fwyd a chaledi yn ei chael ar duedd gynyddol i gyflawni trosedd – gan arwain at gostau ychwanegol o ran plismona a'r system gyfiawnder, a chostau i gymdeithas.

O edrych ar y llenyddiaeth, nid ydym yn ystyried bod tystiolaeth na data digon cyson ar gael i ganiatáu i ni nodi tebygolrwydd unigolyn o gyflawni gwahanol fathau o droseddau a'i statws o ran tlodi ar wahân.

Heb hyn, **gallwn ni ddim llunio amcangyfrifon ystyrlon a chadarn o'r effaith ychwanegol y mae mynd heb fwyd a chaledi yn ei chael ar gyfraddau troseddu ledled y wlad**. Felly, er mwyn bod yn ofalus, nid ydym wedi costio'r effaith hon.

Yn fy mherthynas flaenorol, roedd e’n achosi anghytuno â fy mhartner yn gyson. Faint o amser roeddwn i’n ceisio gweithio ...roeddwn i’n teimlo bod angen i fi weithio 45 awr yr wythnos, mewn gwirionedd, dim ond i gadw ar ben fy nghynlluniau ad-dalu... ‘Rwyt ti’n gweithio drwy’r amser, rwyt ti’n gweithio drwy’r amser. Dwyt ti byth yma, does gen ti ddim amser i fi.

Dyn, 40au, Cymru



# 8. Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am fynd i'r afael â chaledi a mynd heb fwyd?

### Mae mynd heb fwyd a chaledi yn cael effeithiau ehangach ar bob un ohonom

Mae mynd heb fwyd a chaledi yn amlwg yn rhoi straen mawr ar bobl, yn ogystal ag ar ein heconomi, cyllid cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus.

### Mae mynd heb fwyd a chaledi yn atal cynnydd o ran safonau byw

Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â chaledi a mynd heb fwyd os ydym am sicrhau safonau byw gwell i ni gyd.

### Mae costau polisïau yn cael eu gwrthbwyso'n sylweddol gan y buddiannau

Mae modelu newydd yn dangos bod polisïau penodol yn gallu mynd i'r afael â chaledi a mynd heb fwyd, yn ogystal â sicrhau buddiannau sy'n gwrthbwyso cost y polisi ei hun yn sylweddol.

### Polisïau nawdd cymdeithasol yw ein hysgogydd mwyaf effeithiol

Yn unol ag ymchwil dros y blynyddoedd, polisïau nawdd cymdeithasol sy'n cael yr effaith fwyaf a mwyaf uniongyrchol ar galedi a mynd heb fwyd ledled y DU.

# Ysgogwyr polisi ac effeithiau costau

Tybir bod polisïau wedi'u cyflwyno yn 2022/23, amlinellir costau o flwyddyn 5 isod (2026/27)
Mae'r tabl hwn yn edrych ar gostau a buddiannau rhoi'r polisïau hyn ar waith **yng Nghymru**.
I gael dadansoddiad llawn o'r costau a'r buddiannau ar gyfer y DU, gweler ein hadroddiad cryno ar gyfer y DU.

| Polisi | Gweithredu'r Warant Hanfodion | Dileu'r terfyn dau blentyn | Ymestyn Taliad Plant yr Alban | Ymestyn Prydau Ysgol am Ddim (i bawb) | Ymestyn Prydau Ysgol am Ddim (i bawb sy'n cael Credyd Cynhwysol) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llai o gost i'r economi, Llywodraeth y DU, a gwasanaethau cyhoeddus** | £1.5bn | £255mn | £605mn | £140mn | £140mn |
| Mwy o gyflogaeth a chynhyrchiant | £725mn | £50mn | £105mn | £25mn | £55mn |
| Mwy o refeniw treth a llai o daliadau nawdd cymdeithasol | £610mn | £100mn | £300mn | £100mn | £75mn |
| Llai o gostau gwasanaethau cyhoeddus | £116mn | £111mn | £203mn | £21mn | £11mn |
| **Gwerth cynnydd mewn llesiant goddrychol** (heb gael ei gynnwys yn yr effeithiau costau cyffredinol) | £820mn | £50mn | £105mn | £25mn | £60mn |

# Eisiau gwybod mwy?

**Mwy am fynd heb fwyd a chaledi**

Mwy o wybodaeth am y metrig a pham rydym wedi'i ddatblygu a'i ddefnyddio yma.

**Adroddiad llawn a methodoleg**

Ar gael yn ein hadroddiad terfynol yma.

**Cysylltu â ni**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach, gallwch chi gysylltu â ni yn katie.till@trussell.org.uk

# Diolch!

trussell.org.uk

trussellUK

Trussell yw enw gweithredu Ymddiriedolaeth Trussell, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1110522) a'r Alban (SC044246). Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (5434524).